



Cyngor Cyllido Addysg
Uwch Cymru
Higher Education Funding
Council for Wales

hefcw

Beth rydym yn ei wneud i fyfyrwyr

CCAUC yw Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

O dan Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015, rydym yn rheoleiddio'r rhan fwyaf o'r ddarpariaeth addysg uwch yng Nghymru, sy'n golygu ein bod yn sicrhau bod prifysgolion a cholegau sy'n darparu addysg uwch yn ddiogel yn ariannol ac yn gweithio i ddarparu profiad rhagorol i'w myfyrwyr. Rydym hefyd yn ymyrryd os bydd pethau'n mynd o chwith.

Gweithio gyda sefydliadau:

- bod addysg uwch yng Nghymru'n diwallu anghenion y boblogaeth amrywiol o fyfyrwyr a bod yr addysg hon yn parhau i fod o safon uchel iawn;
- mae gan raddedigion yng Nghymru'r sgiliau y mae arnynt eu hangen ar gyfer y gweithle, ar lefel genedlaethol a rhyngwladol;
- mae rhagoriaeth ac effaith ymchwil yng Nghymru'n parhau i gynyddu;
- mae mwy o gyfleoedd i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg;
- maent yn cyhoeddi gwybodaeth am gostau hanfodol astudio fel bod y myfyrwyr yn gallu gwneud penderfyniadau doeth am eu dewis o radd.

Llais y myfyrwyr

Rydym yn cydlynu'r Arolwg Cenedlaethol o Fyfrwyr yng Nghymru – gan roi cyfle i fyfyrwyr yn eu blwyddyn derfynol leisio eu barn am eu profiad astudio.

Rydym yn sicrhau bod llais y myfyrwyr yn cyfrannu at y polisiau rydym yn eu llunio, drwy gynnwys aelod o NUS Cymru ar ein Pwyllgor Cyfleoedd a Chyflawniad y Myfyrwyr a'n Pwyllgor Asesu Ansawdd. Hefyd mae Llywydd NUS Cymru yn arsylwr ar ein Cyngor.

Gweithio mewn partneriaeth â myfyrwyr

Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â myfyrwyr drwy gyfrwng NUS Cymru, gan monitro a ymgynghori â hwy ar feysydd allweddol fel datblygu cynlluniau mynediad a ffioedd. Rydym yn gweithio gyda sefydliadau eraill ledled gweddill y DU, gan ddarparu cyngor a defnyddio ein dylanwad i sicrhau bod llais Cymru, gan gynnwys myfyrwyr o Gymru, yn cael ei gynrychioli ar bob lefel. Rydym yn sicrhau bod gan sefydliadau a reoleiddir siarter myfyrwyr a chytundeb perthynas yn ei le.

Rydym yn bartneriaid i Wise Cymru, sy'n ceisio creu partneriaeth ystyrlon rhwng addysgwyr, undebau myfyrwyr a myfyrwyr ledled Cymru, gan wneud Cymru'n lle rhagorol i fyfyrwyr astudio ynddo a galluogi myfyrwyr i gymryd rhan mewn gwella eu profiadau dysgu.

Cynlluniau mynediad a ffioedd

Mae cynlluniau mynediad a ffioedd yn esbonio sut bydd sefydliadau'n gwario canran o'r ffioedd i gefnogi cyfleoedd cyfartal ac i hybu addysg uwch. Rydym yn gweithio gyda sefydliadau i sicrhau bod myfyrwyr yn ymwneud yn llawn â'r broses.

Gan fod yr arian yn dod o ffioedd, a chan y dylent fod o fudd i'r myfyrwyr, mae'n bwysig iawn i fyfyrwyr ac undebau myfyrwyr chwarae eu rhan. Mae hyn yn helpu i sicrhau bod y cynlluniau'n arwain at ganlyniadau a fydd o fudd i fyfyrwyr y presennol a'r dyfodol.

Beth fyddwn yn ei wneud yn y dyfodol

Cyngor Cyllido Addysg
Uwch Cymru
Higher Education Funding
Council for Wales

hefcw

Rydym yn gweithio i gynyddu opsiynau dysgu hyblyg i ddiwallu anghenion amrywiol myfyrwyr, gan gynnwys y ddarpariaeth ran amser, prentisiaethau uwch, dysgu seiliedig ar waith a dysgu o bell.

Byddwn yn hyrwyddo profiad y myfyrwr ac yn sicrhau bod llais y myfyrwr yn cael ei ymgorffori yn ein polisïau a'n gofynion rheoleiddiol drwy sicrhau ein bod yn gwneud y canlynol:

- Gweithio gydag NUS Cymru, y sector a'r rhanddeiliaid eraill i sbarduno'r agenda o fyfyrwyr fel partneriaid;
- Annog darparwyr i ymateb i amrywiaeth y profiad i fyfyrwyr;
- Ymgorffori llais y myfyrwr yng nghyfarwyddyd a pholisïau ein sector;
- Annog cyhoedduswydd i wybodaeth ddibynadwy ac amserol am addysg uwch;
- Monitro a rheoli effeithiau anfwriadol y newidiadau i'r drefn ffioedd a chyllido ar gyllid myfyrwyr;
- Gweithredu system reoleiddio gadarn a chymesur sy'n lleihau'r risg i fyfyrwyr ac i sefydliadau.

Byddwn yn parhau i sicrhau bod nodau a dulliau gweithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cael eu hymgorffori yn ein polisïau a'n cyfarwyddyd a byddwn yn annog eraill i gefnogi'r ddeddfwriaeth hon.

Byddwn yn sicrhau bod ein polisïau'n gwarchod buddiannau'r myfyrwr fel bod yr holl fyfyrwyr yn cael cyfle i ragori.

Byddwn yn parhau i ymateb i'r newidiadau yn y sector, gan weithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau bod myfyrwyr yn cael cynrychiolaeth lawn a bod profiad y myfyrwr yng Nghymru o safon ragorol.

Creu Cyfleoedd i Fyfyrwyr

Byddwn yn parhau i arwain y rhaglen Cyflawni Drwy Brofiad Gwaith sy'n fenter a gyllidir yn rhannol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop ac a gyflwynir gan brifysgolion yng Nghymru. Mae ar gyfer myfyrwyr llawn amser dan 25 oed sy'n bodloni meini prawf cymhwysedd.

Cefnogir y Rhaglen gan £4.7m o Gronfa Gymdeithasol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru ac mae'n helpu i baratoi'r myfyrwyr sydd angen yr help ychwanegol mwyaf ar gyfer byd gwaith.

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Rydyn ni'n hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ac yn hybu arferion effeithiol a chynhwysol mewn addysg uwch. Mae sefydliadau'n denu amrywiaeth eang o staff, ymgeiswyr a myfyrwyr ac rydyn ni wedi ymrwmo i weithio gyda sefydliadau i sicrhau cyfleoedd cyfartal i bawb maent yn ymwneud a hwy. Rydyn ni'n annog gwelliannau ac yn asesu perfformiad ar sail tystiolaeth, yn ogystal ag ystyried ymgysylltu'r sefydliadau â mentrau cydraddoldeb ac arferion effeithiol ledled y DU. Ceir sawl mantais i wella cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn addysg uwch a sicrhau dulliau cynhwysol o weithredu, gan gynnwys cyfrannu at gyfiawnder cymdeithasol a gwneud Cymru'n gymdeithas decach.



Cyflawni drwy
Brofiad Gwaith
Achieve through
Work Experience

Am fwy o wybodaeth ewch i

www.hefcw.ac.uk neu ddilynwch ni ar @hefcw

